# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 2 Gorfennaf 2019
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Ann Tudor, Rowland Jones, Meirion Davies, Dewi Rattray, Meic Francis, Ada Evnas, Richard Davies & Dylan Edwards**

**ABSENOLDEBAU:** Cynhorwyr Caredig Jones & John Davies

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Gorfennaf gan y Cadeirydd Rowland Jones.

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Mehefin, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Ada Evans.

18/1073 - MATERION YN CODI

1. Diolch i John Jones, Berthlwyd Llanilar am eu help gasglu a danfon y polyn banner i'r ysgol gynradd yn y pentref.
2. Mae'r sefyllfa Baw Cwn wedi gwaethygu yn y pentref yn ddiweddar. Mae'r cyngor cymuned wedi penderfynu cymryd camau i geisio dileu'r broblem hon, gan ddechrau gyda phosteri a thaflennu i drigolion y pentref.

18/1074 - LLYTHYRON

1. LLythr oddiwrth GIG Cymru gyda manylion am datblygu y wasanaeth trawma yn Ysbyti Glangwili.
2. Llythyr o'r Cyngor Sir ynglŷn â Countryside Rights of way
3. Llythyron o ddiolch wrth; Treialon Cwn Defaid 2020, Pwyllgor apêl Eisteddfod Genedlaethol ardal Llanilar, Lledrod a Thrawscoed, Samariaid a Chyngor at Bopeth am y rhoddion a derbyniwyd yn ddiweddar wrth y Cyngor Cymuned.
4. Nifer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis, gan gynnwys Bwletin diweddar Un Llais Cymru.

18/1075 - ARIANNOL

1. Mae'r W.I. wedi gosod tybiau o flodau o amgylch y pentref. Mae'r cynghorwyr i gyd yn cytuno eu bod yn edrych yn hyfryd. Penderfynnwyd y byddem yn talu costau'r tybiau eleni sef £100. Cynnigwyd I'w dalu gan y Cyng.Ann Tudor ac fe eiliwyd gan y Cyng.Meic Francis. Roedd pawb yn gytûn.
2. Anfoneb ar gyfer llog yr ystafell, cyfanswm £22.50. Cynnigwyd I'w dalu gan y Cyng.Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ada Evans.
3. Cyflog y Clerc ar gyfer mis Gorfennaf, £133.26. Cynnigwyd I'w dalu gan y Cyng.Ada Evans ac fe eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies.
4. Cais ar gyfer cymorth i dalu costau yswiriant yr Hen Ysgol gan Gymdeithas Datblygu Cymuned Llanilar. Fe wnaeth y Cynghorwyr Rowland Jones a Meic Francis datgan diddordeb. Ar ôl trafod, penderfynwyd helpu i dalu'r cyfanswm eleni. Cynnigwyd i dalu'r cyfanswm o £1609.35 gan y Cyng. Dewi Rattray ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meirion Davies.

18/1076 – CYNLLUNIO
Cais rhif: A190244

Planning of Dwelling – Land adjacent to Rhyd, Llanilar
Nid oes gan y cyngor cymuned wrthwynebiadau penodol ar y cais cynllunio, fodd bynnag gofynnir i'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn am gadarnhad for y safle o fewn ffin bresennol yr awdurdod cynllunio lleol.

18/1077 - UNRHYW FATER ARALL

1. Mae'r cyflwr coedwig Abermad yn gonsyrn i bobol y gymuned, yn enwedig ar ôl i un gwympo ar y brif ffordd yn ddiweddar...gall wedi achosi anaf difrifol. Offynnwyd I'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r goedwig yma.
2. Nodwyd fod cyflwr ofnadwy i'r darn rhwng Lanlwyd a Glynwern ar y ffordd gefn o Lanilar i Rydyfelin. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at yr adran priffyrdd ynglŷn â hyn.

Orffenwyd y gyfarfod am 9.20pm